


# Polisi Arwyddion Twristiaeth

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**ARWYDDION TWRISTIAETH AR GYFER CYRCHFANNAU YMWELWYR YNG NGWYNEDD**

**CYNGOR GWYNEDD**

**MEINI PRAWF A CHANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR**

**BETH YW ARWYDD TWRISTIAETH (BROWN A GWYN) Y BRIFFORDD?**
Mae arwyddion twristiaeth brown gyda geiriad gwyn yn cael ei ddefnyddio i arwyddo atyniadau twristiaeth neu gyfleusterau a llefydd o ddiddordeb oddi ar y briffordd gyhoeddus. Y prif nod yw cyfeirio'r ymwelwyr i ddarganfod atyniadau twristiaeth neu gyfleusterau a llefydd o ddiddordeb ar ran olaf ei taith. **NID YW YN FFURF O FARCHNATA A HYSBYSEBU**.

Mae'r meni prawf a'rcanllawiau sydd yn rhan or ddofgen hon yn benodol ar gyfer ffyrdd sydd yn cael ei rheoli yn uniongyrchol gan Gyngor Gwyendd.

**Llywodraeth Cymru sydd a chyfrifoldeb dros draffyrdd a phrif gefnffyrdd Gwynedd / Cymru.** Mae canllawiau ar wahann ar gyfer yymgwisio am arwyddion twristiaeth ar y ffyrdd yma. Am fanylion ewch i http://wales.gov.uk/topics/tourism/gradingl1/brownandwhitesigns/?skip=1&lang=cy

**BETH FYDD YN CAEL EI ARWYDDO?**
Bydd arwyddo o'r briffordd agosaf yn cael ei ystyried ar gyfer atyniadau a chyfleusterau o fewn y categorïau isod:

a. Atyniadau Twristiaeth
b. Cyfleusterau Trefol**
c. Cyfleusterau Gwledig
Ch. Meysydd Carafanau a Phebyll
d. Arwyddion pentrefi/trefi i gynnwys symbolau twristiaeth

Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i :

e. Gwasanaethau lleol mewn cymunedau gwledig ac sydd wedi ei lleoli ar ffyrdd osgoi

**BETH NA CHEIR EI ARWYDDO?**
Yn unol â pholisi arwyddion twristiaeth Cyngor Gwynedd ni fydd y mathau isod o sefydliadau yn cael ei arwyddo:

Parciau Manwerthu, Canolfan Siopa, Canolfannau Garddio, Canolfannau Arddangos, Parc Gwyliau ***

*** Ystyriaeth gan swyddogion ac aelod cabinet mewn achosion arbennig lle mae'r lleoliad yn hynod wledig ac peri problemau cyfeirio i ymwelwyr.

**ARDALOEDD CYMWYS**
Trefi a phentrefi o fewn ffiniau Sir Gwynedd

****Dylid nodi na chaniateir arwyddion i gyfleusterau unigol e.e. gwestai, gwely a brecwast, tai aros, tafarnau a bwytai o fewn ffiniau trefol.**

Diffiniad o ffiniau trefol yw ardal efo poblogaeth o dros 1500.

**CANLLAWIAU**

i Mae'n rhaid i'r atyniad/cyfleuster gyfarfod â diffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o gyrchfan ymwelwyr fel a ganlyn:

*Atyniad neu gyfleuster yw cyrchfan ymwelwyr. Mannau o ddiddordeb yw atyniadau ymwelwyr, sy'n agored i'r cyhoedd ac yn cynnig cyfleoedd hamddena, addysg neu ddiddordeb hanesyddol. Dyma enghreifftiau o atyniadau:*

- *Amgueddfeydd a Chanolfannau Ymwelwyr*
- *Parciau thema*
- *Cyrsi*
- *Cestyll ac Adeiladau Hanesyddol*
- *Parciau Anifeiliaid Gwyllt a Sws*
- *Theatrau a Neuaddau Cyngerdd*
- *Stadiwm Chwaraeon Cenedlaethol*

*Mae cyfleusterau i ymwelwyr yn cynnwys gwestai, tai llety, llety gwely a brecwast, tai bwyta, parciau gwyliau, parciau carafanau teithiol a gwersylla, safleoedd picnic, hosteli ieuenctid a Chanolfannau Croeso.*

i Dylai'r atyniad/cyfleuster cydymffurfio ag anghenion yr Awdurdod Cynllunio a chanllawiau Cyngor Gwynedd ar gyfer Arwyddion Twristiaeth (Cyfeiriwch at Atodiadau A - E sy'n amgaeedig)

iii. Dylai'r busnes / gyfleuster fod ar agor am o leiaf 150 diwrnod y flwyddyn. Nid'r cymal hwn yn yw gymwys i atyniadau.

iv. Bydd holl eiriau'r arwyddion yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, yn unol â pholisi dwyieithog Cyngor Gwynedd.

v. Nid yw'r ffaith fod cyrchfan yn gymwys yn rhoi hawl awtomatig ar gyfer arwyddion. Mae'n bosib na chaiff arwyddion eu cymeradwyo os ydynt yn anghydnaws ag anghenion yr amgylchedd, diogelwch neu reoli traffig.

vi. Mae holl gost yr arwyddion yn daliadwy gan yr ymgeisydd.

vii. Cynhwysir taliad di-ddychwel o £75 yn cynnwys TAW, hefo'r ffurflen gais ar gyfer asesu, ymgynghori a phrosesu'r cais gan Gyngor Gwynedd.

viii. Bydd yn hanfodol i'r ymgeisydd gytuno i Amodau Safonol Cyngor Gwynedd (Gweler Atodiad F).

ix. Yn dilyn gosod yr arwyddion, os bydd arwydd yn cael ei ddwyn, ei ddifrodi neu draul teg (cyfartaledd oes arwydd - 10 mlynedd) yr ymgeisydd / busnes fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau ail osod neu ail gynhyrchu.

Dylid amgáu'r wybodaeth isod gydag unrhyw ffurflen gais:-

Unrhyw ddeunydd marchnata e.e. taflen ynghyd a map syml o'r safle a lleoliad posib eich arwyddion newydd gydag enw / cyfeirnod y ffordd A neu B agosaf.

Copi o drwydded safle cyfredol ar gyfer meysydd carafanau/pebyll

iii. Cynllun safle

iv. Unrhyw ohebiaeth ynglŷn â materion Cynllunio

v. Copi o dystysgrifau graddio cyfredol e.e. Croeso Cymru, AA.

Vi. Manylion am gynnwys yr arwydd

**GWYBODAETH AM BOLISI PRISIO ARWYDDION TWRISTIAETH – CYNGOR GWYNEDD**

Ni fydd darparu arwyddion twristiaeth yn arwain at unrhyw gostau i Gyngor Gwynedd. Mae ffi di-ddychwel o £75 yn cynnwys TAW ar gyfer asesu a phrosesu ffurfleni cais.

Yr atyniad / busnes sydd a chyfrifoldeb dros gyllido costau arwyddion -

- **Codi'r ffi am ddylunio y cynllun arwyddo. Mae costau dylunio yn dibynnu ar werth costau'r contractwr o ran ffioedd gosod a chynhyrchu'r arwyddion (gweler y tabl isod)**

| Costau'r contractwr | Ffi dylunio a gweinyddol |
|---|---|
| > £199 | £150 |
| £200 - £499 | £300 |
| £500 - £999 | £500 |
| £1000 > | £600 |

Codi'r ffi am ddarparu a gosod yr arwyddion (costau'r contractwr) sydd yn unol a chostau safonol yr awdurdod lleol.

Noder: os yw'r atyniad / busnes yn gofyn am ddiwygiad i ddyluniad wyneb yr arwydd, codir costau dylunio ychwanegol.

Bydd yr amcan bris yn gyfredol am 21 diwrnod yn dilyn ei gyflwyno i'r ymgeisydd. Os bydd angen ail gyflwyno pris, bydd cost ychwanegol o £50.

**Enghreifftiau o gynlluniau arwyddion o'r gorffennol a'u Prisiau terfynol**

| | Cynllun 1 | Cynllun 2 | Cynllun 3 | Cynllun 4 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer o byst** | 1 | 0 | 3 * | 5 |
| **Nifer o wynebau arwyddion** | 1 | 3 | 4 | 4 |
| **Cyfartaledd metr sgwâr** | 0.31 | 0.80 | 0.70 | 0.46 |
| **Dosbarth y ffordd** | Di-ddosbarth | Dosbarth 1 | Cefn ffordd | Cefn ffordd |
| **Pris (TAW heb ei gynnwys)** | £350 | £700 | £1,110 | £1,725 |

* cyfuniad o byst cynnal a physt ymestyn

**Cynllun 1 – Arwyddion ar ffordd wledig di-ddosbarth**
1 postyn ac arwydd fflag.

**Cynllun 2 – Arwyddion ar A497 wrth ddynesu at y cylchfan**
2 arwydd ymlaen llaw ar ddwy ochr y ffordd sy'n dynesu at y cylchfan ar byst presennol
1 arwydd fflag ar bostyn presennol ar yr ynys gwahanu lonydd

**Cynllun 3 – Arwyddion ar A487**
2 arwydd ymlaen llaw ar byst presennol
2 arwydd fflag gyferbyn â'r gyffordd ar byst presennol
Yn defnyddio cyfuniad o byst ymestyn i godi uchder yr arwydd a physt cynnal i gefnogi arwyddion ar y gosodiad presennol.

**Cynllun 4– Arwyddion ar A470**
2 arwydd ymlaen llaw ar ddwy ochr y troad i'r atyniad ar gyfanswm o 4 postyn
2 arwydd fflag gefn yn gefn ar 1 postyn gyferbyn â'r troad.

Noder: canllaw yn unig yw'r prisiau uchod ac mae pob cynllun arwyddo yn wahanol. Gall nifer o faterion effeithio ar y pris e.e. cyflymder y ffordd, lleoliad yr atyniad, posibilrwydd defnyddio pyst presennol, cynnwys yr arwydd ayb.

**ATODIAD A**

**ATYNIADAU YMWELWYR**

Y prif nod yw cyfeirio'r ymwelwyr i ddarganfod atyniadau twristiaeth ar ran olaf ei taith.

***MEINI PRAWF***

Os na fydd yr atyniad yn derbyn cefnogaeth gan Wasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer (Cyngor Gwynedd) yna bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ddarparu cadarnhad ysgrifenedig gan Groeso Cymru neu ei asiant fod y gyrchfan yn atyniad ymwelwyr o safon ac ddibenion ymwelwyr. Oherwydd rhesymau'n ymwneud 5 buddiannau cenedlaethol, nid oes'r fath yn achos eiddo CADW a'r gofyniad o Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth fod yr atyniad yn cael cyhoeddusrwydd a bod gwybodaeth am deithio i'r safle mewn taflen neu ar y we.

iii. Os yw'r cais yn gymwys i gael arwyddion twristiaeth, dylid symud yr holl arwyddion cyfeiriadol eraill at yr atyniad ar y safle a gyfeirir ato yn yr arwyddion arfaethedig.

iv. Os bydd y cais yn llwyddiannus bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am dynnu unrhyw arwyddion eraill i lawr o fewn 1 mis o ddyddiad y gosodir yr arwyddion brown a gwyn ar y safle. Os nad fydd yr ymgeisydd yn llwyddo i wneud hyn yna ni chaniateir i'r arwyddion brown a gwyn gael ei gosod.

v. Dylai fod digon o gyfleusterau parcio ar y safle neu o fewn 400 metr i'r atyniad. Gellir arwyddo o feysydd parcio eraill gyda chaniat5d y perchennog.

vi. Yr ymgeisydd sy'n talu'r holl gostau am gael arwyddion.

**CANLLAWIAU**

Fel arfer, byddir yn arwyddo atyniadau ymwelwyr o fewn 2 filltir i'r atyniad, neu o'r briffordd agosaf (Dosbarth A a B), prun bynnag fo'r pellter lleiaf. Darperir arwyddion dilynol, os oes angen, gan ddefnyddio symbolau, ynghyd 5 rhai 'dilynwch' pan fo'n briodol.

Yr Awdurdod Trafnidiaeth a fydd yn gyfrifol am bennau'r ffordd fwyaf priodol at yr atyniad, yn wyneb ystyriaethau rheoli trafnidiaeth.

iii. Bydd nifer a maint yr arwyddion a ganiateir yn berthnasol i leoliad yr atyniad, nifer y cyrchfannau eraill a fo'n gymwys i dderbyn arwyddion twristiaeth yn yr ardal a'r math o ffordd.

iv. Bydd yr holl arwyddion yn ddwyieithog yn unol 5 pholisi dwyieithog Cyngor Gwynedd 'a'r Cynulliad

v. Gwnaiff Cyngor Gwynedd dylunio'r holl arwyddion yn unol 5'r Rheoliadau Arwyddion Trafnidiaeth a'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a Rheoliadau Dylunio'r Adran Drafnidiaeth.

**ATODIAD B**

**CYFLEUSTERAU TREFOL (ardal gyda phoblogaeth o dros 1500)**

Darperir arwyddion o'r fath er bydd ymwelwyr a ddaw i'r trefi sydd angen eu cyfeirio at y **cyfleusterau adloniant neu wasanaethau** sydd ar gael ar eu cyfer.

***MEINI PRAWF***

Os na fydd yr atyniad / cyrchfan / busnes yn derbyn cefnogaeth gan Wasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer (Cyngor Gwynedd) yna bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ddarparu cadarnhad ysgrifenedig

gan Groeso Cymru neu ei asiant fod y gyrchfan yn atyniad / wasanaeth at ddibenion ymwelwyr ac o safon. Oherwydd rhesymau'n ymwneud 5 buddiannau cenedlaethol, nid oes'r fath yn achos gofyniad o eiddo CADW a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth fod yr atyniad / cyrchfan / busnes yn cael cyhoeddusrwydd a bod gwybodaeth am deithio i'r safle mewn taflen neu ar y we.

iii. Os yw'r cais yn gymwys i gael arwyddion twristiaeth, dylid symud yr holl arwyddion cyfeiriadol eraill at yr atyniad gan berchennog y safle.

iv. Dylai fod digon o gyfleusterau parcio ar y safle ar gael fel rheol er mwyn derbyn arwyddion cerbydau. Lle darperir ar gyfer parcio oddi ar y safle, rhaid i'r parcio fod o fewn 400 metr i'r cyfleustra. Gellir arwyddo i feysydd parcio eraill o fewn 400 metr i'r cyfleustra gyda chaniat5d y perchennog.

v. Nid ystyrir darparu arwyddion i fusnesion trefol sydd yn cynnig llety unigol, siopau, canolfannau siopa, canolfannau garddio, orielau manwerthu.

***CANLLAWIAU***

Cyn unrhyw arwyddo, mae gan Gyngor Gwynedd yr hawl i gysylltu 5 chymdeithasau busnes a thwristiaeth i bennu nifer y cyfleusterau mewn ardal benodol a all fod angen arwyddion i'r dyfodol. Yna, gellid ystyried cynllun arwyddo cynhwysfawr yn amodol ar adolygiadau heb fod yn llai na phob 3 blynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ni fyddid yn diwygio arwyddion o fodolai ar y pryd.

Lle nad yw arwyddion i gerbydau'n briodol, gellir ystyried arwyddion i gerddwyr o'r maes parcio mawr agosaf.

iii. Mae'r nifer o fusnesau a ellir eu harwyddo ar unrhyw gyffordd yn ddibynnol ar y lle sydd ar gael a'r arwyddion sy'n bodoli. Lle dymunir arwyddo rhagor na 4 busnes twristiaeth ar unrhyw gyffordd, yna rhoddir blaenoriaeth i'r busnesion mwyaf. Os na ellir gwahaniaethu rhwng y busnesion ar y sail yma, dewisir y 6 busnes agosaf at y gyffordd.

iv. Lle ceir rhagor na 3 chyfleustra o'r un math naill ai mewn un ardal neu ar hyd ffordd arbennig, gwnaiff y Cyngor defnyddio'r termau cyffredinol yn hytrach na harwyddo busnesion unigol e.e. Siopau'r Stryd Fawr.

iv. Os ywŕ cyfleustra wedi'i leoli yn ymyl ffordd Ddosbarth 'A' neu 'B' neu isffyrdd sy'n ffordd ddosbarthu leol, darparir arwyddion ymwelwyr ond yng nghyffiniau'r cyfleustra.

***MATH O FUSNES Y GELLIR YSTYRIED***

***CYFLEUSTERAU HAMDDEN/ADLONIANT / CLYBIAU GOLF***

Ni ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd yn seiliedig ar aelodaeth yn unig neu'n dibynnu ar archebu ymlaen llaw.

***SINEMÂU***

Dim cyfyngiadau ar ddefnydd lle mae angen archebu ymlaen llaw.

***THEATRAU***

Cyfleusterau ar gael ar adegau pan na fo perfformiadau – e.e swyddfa archebu tocynnau a mannau arddangos.

**ATODIAD C**

**CYFLEUSTERAU GWLEDIG**

Darperir arwyddion o'r fath er budd ymwelwyr sydd yn ymweld â chefn gwlad Gwynedd ac sydd angen eu cyfeirio at wasanaethau.

***MEINI PRAWF***

Os na fydd yr atyniad / cyrchfan / busnes yn derbyn cefnogaeth gan Wasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer (Cyngor Gwynedd) yna bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ddarparu cadarnhad ysgrifenedig gan Groeso Cymru neu ei asiant fod y gyrchfan yn atyniad / wasanaeth at ddibenion ymwelwyr ac o safon. Oherwydd rhesymau'n ymwneud â buddiannau cenedlaethol, nid oes'r fath yn achos gofyniad o eiddo CADW a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth fod yr atyniad / cyrchfan / busnes yn cael cyhoeddusrwydd a bod gwybodaeth am deithio i'r safle mewn taflen neu ar y we.

iii. Os yw'r cais yn gymwys i gael arwyddion twristiaeth, dylid symud yr holl arwyddion cyfeiriadol eraill at yr atyniad ar y safle arwyddion arfaethedig gan y perchennog.

iv. Dylai fod digon o gyfleusterau parcio ar y safle ar gael fel rheol er mwyn derbyn arwyddion cerbydau. Lle darperir ar gyfer parcio oddi ar y safle, rhaid i'r parcio fod o fewn 400 metr i'r cyfleustra. Gellir arwyddo i feysydd parcio eraill o fewn 400 metr i'r cyfleustra gyda chaniatâd y perchennog.

**CANLLAWIAU**

Cyn unrhyw arwyddo, mae gan Gyngor Gwynedd yr hawl i gysylltu â chymdeithasau busnes a thwristiaeth i bennu nifer y cyfleusterau mewn ardal benodol a all fod angen arwyddion i'r dyfodol. Yna, gellid ystyried cynllun arwyddo cynhwysfawr yn amodol ar adolygiadau heb fod yn llai na phob 3 blynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ni fyddid yn diwygio arwyddion o fodolai ar y pryd..

Lle nad yw arwyddion i gerbydau'n briodol, gellir ystyried arwyddion i gerddwyr o'r maes parcio mawr agosaf.

iii. Mae'r nifer o fusnesau a ellir eu harwyddo ar unrhyw gyffordd yn ddibynol ar y lle sydd ar gael a'r arwyddion sy'n bodoli. Lle dymunir arwyddo rhagor na 4 busnes twristiaeth ar unrhyw gyffordd, yna rhoddir blaenoriaeth i'r busnesion mwyaf. Os na ellir gwahaniaethu rhwng y busnesion ar y sail yma, dewisir y 6 busnes agosaf at y gyffordd.

iv. Lle ceir rhagor na 3 busnes o'r un math naill a'i mewn un ardal neu ar hyd ffordd arbennig, yn defnyddio'r termau cyffredinol yn hytrach na'u harwyddo'n unigol e.e. Siopau'r Stryd Fawr.

v. Fel arfer os yw'r cyfleustra wedi'i leoli'n ymyl ffordd Ddosbarth 'A' neu 'B' neu isffyrdd sy'n ffordd ddosbarthu leol ddarparir arwyddion ymwelwyr ond yng nghyffiniau'r cyfleustra.

**CYFLEUSTERAU**

**TAFARNAU**

Dylent fod yn rhai a fydd yn darparu prydau o leiaf yn ystod amser cinio a min nos heb orfod archebu ymlaen llaw.

**BWYTAI A CHAFFI**

Dylai'r cwsmer allu cael pryd heb archebu ymlaen llaw. Mae'n hanfodol i'r bwyty / caffi fod ar agor am 6 awr y dydd, 6 dydd yr wythnos a 150 dydd y flwyddyn.

*GWESTAI*

Ni ystyrir darparu arwyddion i fusnesion sydd yn cynnig llety sydd heb ei raddio gan Groeso Cymru neu'r 'AA Dylai'r prydau fod ar gael, heb archebu ymlaen llaw, yn ystod amser cinio a min nos . Dylai'r gwesty fod yn agored am o leiaf 6 awr y dydd, 6 diwrnod yr wythnos ac o leiaf am 150 diwrnod y flwyddyn.
(Hwyrach y bydd amgylchiadau arbennig pan fo cyfleusterau cynhadledd neu hamdden a ddefnyddir gan rai nad ydynt yn breswylwyr.

**GWELY A BRECWAST A THAI AROS**

Ni ystyrir darparu arwyddion i fusnesion sydd yn cynnig llety sydd heb ei raddio gan Groeso Cymru neu'r 'AA Rhaid iddynt fod ar gael i ymwelwyr aros ynddynt dros nos ac am gyfnodau byr.

**PARCIAU GWYLIAU*****

Dim ond mewn achosion arbennig y gellir caniatáu arwyddo Parciau Gwyliau. Ystyriaeth gan swyddogion ac aelod cabinet mewn achosion arbennig lle mae'r lleoliad yn hynod wledig ac peri problemau cyfeirio i ymwelwyr.

**ATODIAD CH**

**MEYSYDD CARAFANAU, GWERSYLLOEDD A FANIAU CAMPIO**

Darperir yr arwyddion hyn er bydd ymwelwyr sydyn ymweld ar ardal ac sydd am aros dros nos neu yn achlysurol am gyfnodau byr gyda phabell, carafán neu fan gampio.

*MEINI PRAWF*

Rhaid trwyddedu'r maes dan Ddeddf Reoli Meysydd Carafanau, 1960 a/neu'r Ddeddf Iechyd Cyhoeddus, 1936. **Bydd yn ofynnol dangos copi drwydded y maes**.

Rhaid bod o leiaf 20 llecyn ar gael ar gyfer diben **achlysurol dros nos.**

*CANLLAWIAU*

Fel arfer dim ond y symbolau Carafanau Teithiol a / neu wersyll a / neu fan gampio fydd yn ymddangos ar arwydd, ynghyd â'r pellter.

Gellir cynnwys enwau meysydd ar arwyddion pe byddai dryswch gan fod 2 neu ragor o feysydd yn agos ' gilydd, neu fod arwyddion atynt o'r un gyffordd i wahanol gyfeiriadau.

iii. Lle ceir rhagor na 3 maes ar unrhyw ffordd, gellir defnyddio arwydd cyffredin gyda symblo(au) yn hytrach na rhai unigol.

iv. Fel rheol dim bydd unrhyw gynllun arwyddo yn cael ei ganiatáu i arwyddo'r Ffordd A neu B meysydd o agosaf hyd at uchafswm pellter o 2 filltir o'r maes.

v. Ni chaiff meysydd carafanau sefydlog na chalets eu harwyddo oni bai iddynt fod wedi ei lleoli o milltir o'r leiaf 3 pentref / prif ffordd agosaf.

**ATODIAD D**

**GWASANAETHAU LLEOL MEWN CYMUNEDAU SYDD Â FFYRDD OSGOI**

Darperir yr arwyddion hyn i hysbysu gyrwyr/ymwelwyr am y gwasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau sydd â ffyrdd osgoi neu ddim ar brif ffordd. Gellir cynnwys symbolau yn dynodi'r gwasanaethau canlynol yn unig parcio, toiledau cyhoeddus lluniaeth, lletyau, tanwydd a chanolfan gwybodaeth.

Cysylltwch yn uniongyrchol a’rGwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer er mwyn derbyn mwy o wybodaeth. Manylion cyswllt ar waelod y ddogfen.

**ATODIAD DD**

**PLATIAU ENWAU PENTREFI/TREFI**

Cysylltwch yn uniongyrchol a’rGwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer er mwyn derbyn mwy o wybodaeth. Manylion cyswllt ar waelod y ddogfen.

**ATODIAD E**

**ARWYDDION TWRISTIAETH O GEFNFFYRDD A THRAFFYRDD**

Pan fo’r cais am arwyddion ar gefnffyrdd bydd rhaid ir ymgeisydd ymgynghori gyda swyddfa’r Cynulliad. Am fanylion ewch i http://wales.gov.uk/topics/tourism/gradingl1/brownandwhitesigns/?skip=1&lang=cy

**ATODIAD F**

***AMODAU SAFONOL***

1.1 Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am y costau canlynol:-

- 1.1.1 Costau gosod a dylunio'r arwyddion
- 1.1.2 Cynnal yr arwyddion
- 1.1.3 Adnewyddu’n sgil lladrad, difrod neu draul teg (cyfartaledd oes arwydd – 10 mlynedd);
- 1.1.4 Tynnu’r arwydd os bydd yr atyniad yn peidio â bod yn gymwys am arwydd neu er diogelwch y ffordd.

1.2 Lle bo mwy nag un gyrchfan wedi’i chynnwys ar arwydd(ion), byddai’r ymgeiswyr, fel arfer, yn rhannu’r gost. Pe bai ymgeisydd yn dewis peidio â dilyn y mater, câi’r gost ei hail-rannu ymysg gweddill yr ymgeiswyr.

1.3 Byddai unrhyw ddiwygiadau ar arwyddion a fo’u hangen yn sgil rhagor o atyniadau wedi’u harwyddo’n gofyn am godi tâl ar yr ymgeisydd newydd.

1.4 Rhaid i’r ymgeisydd gytuno i dynnu unrhyw arwydd hysbysebu preifat a fo’n ymwneud â’r atyniad ac a saif gerllaw neu’n ymyl y ffyrdd sy’n agosáu at y safleoedd arfaethedig er mwyn cael arwyddion ymwelwyr.

1.5 Os bydd y cais yn llwyddiannus bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am dynnu unrhyw arwyddion eraill i lawr o fewn 1 mis o ddyddiad y gosodir yr arwyddion brown a gwyn ar y safle. Os nad fydd yr ymgeisydd yn llwyddo i wneud hyn yna ni chaniateir i’r arwyddion brown a gwyn gael ei gosod.

1.6 Os methir cydymffurfio â 1.5 neu os codir arwyddion a symudwyd o’r blaen, yna gallai’r Cyngor weithredu ymhellach i symud yr arwyddion ymwelwyr.

1.7 Adolygir yr arwyddion pob tair blynedd.

1.8 Lle bo atyniad ar agor am lai na 150 diwrnod y flwyddyn, bydd yn ofynnol ar’i gweithwyr drefnu i orchuddio’r arwydd ar sail dros dro yn ystod y cyfnodau pryd y mae’r atyniad ar gau. Dan amgylchiadau o’r fath, dylid ystyried darparu arwyddion â chaead arnynt.

1.9 Ni fydd ceisiadau yn cael eu prosesu os yw yr ymgeisydd mewn dyled am gynllun arwyddion blaenorol.

**MANYLION CYSWLLT**

Dylai unrhyw ymholiadau pellach ynghylch a'rpolisi gael ei gyfeirio at Alun Fôn Williams, Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer, Cyngor Gwynedd. Caernarfon. LL55 1SH.

Ffôn: 01286 679630
Ebost: alunfwilliams@gwynedd.gov.uk



# Ffurflen Arwyddion Twristiaeth

# Tourism Signposting Application Form

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## 1. Ymgeisydd | *Applicant*

Enw Cyswllt | *Contact Name:*

Cyfeiriad | *Address:*

Côd Post | *Postcode:*

Rhif Ffôn | *Telephone Number:*

E-bost | *E-mail:*

Gwefan | *Website:*

A ydych chi'n cael eich cydnabod gan Croeso Cymru?
*Are you recognised by Visit Wales?*

Ydw | *Yes* ☐ Na | *No* ☐

Os mai "Ydw" oedd eich ateb, cofiwch amgau tystiolaeth | *If you answered "Yes", remember to enclose evidence*

## 2. Cyrchfan Twristiaeth i'w Arwyddo | *Tourist Destination To Be Signed*

Enw'r Atyniad / Cyrchfan | *Name of Attraction / Destination:*

Cyfeiriad | Address: (os yn wahanol i'r uchod | *if different from above*)

Côd Post | *Postcode:*

Disgrifiwch eich atyniad / cyfleuster / gwasanaeth | *Describe your attraction / facility / service:*

Os yn gyfleuster / wasanaeth, yna nodwch pa fath (Llety, Hamdden ayyb) :
*If facility / service, please indicate type (Accommodation / Leisure etc) :*

Dyddiadau ac amseroedd agor | *Dates and times of opening:*

Niferoedd ymwelwyr blynyddol presennol **|** *Current visitor number per annum:*
(Lleiafswn o 5,000 ar gyfer atyniad) *(Minimum of 5000 for attraction)*

A oes cost mynediad? **|** *Is there an entrance fee?*

Oes **|** Yes ☐ Na **|** No ☐

Os oes, yna nodwch y prîs **|** *If yes, state price:*

A oes unrhyw arwyddion priffyrdd, arwyddion preifat wedi eu cymeradwyo neu unrhyw arwyddion heb awdurdod wedi eu gosod? **|** *Are there any official highway signs, approved private signs or unauthorised signs already erected?*

Oes **|** Yes ☐ Na **|** No ☐

Nodwch eich rhesymau dros gyflwyno cais am arwyddion twristiaeth **|** *Please state reasons for applying for tourism signposting*

## 3. Parcio | *Parking*

A oes gan y cyrchfan le parcio? | Does the destination have parking?

Oes **|** Yes ☐ Na **|** No ☐

Os oes, ydi o? | If yes, it it?-

Ar y safle | On site ☐ Oddi ar y safle | Off Site ☐ Llefydd | Capacity: ________________

Os na, ydi o'n | If no is it:-

Breifat | Private ☐ Gyhoeddus | Public ☐

Os nad yw'r parcio oddi ar y safle yn un cyhoeddus, neu ddim yn perthyn i chi, a oes gan y gweithredwr unrhyw wrthwynebiad i'ch ymwelwyr gael eu cyfeirio i'w llefydd parcio nhw? **|** *If the off site parking is not a public car park or is not owned by you, does the operator have any objection to your visitors being directed to their car park?*

Oes **|** Yes ☐ Na **|** No ☐

| |
|---|
| Oddeutu pa mor bell mae'r parcio oddi ar y safle oddi wrth eich eiddo? \| Approximately how far is the off site car park from your property? |
| A yw'r parcio (ar neu oddi ar y safle) yn addas ar gyfer coetsus? **\|** Is the parking (on or off site) suitable for coaches?<br>Ydy **\|** Yes ☐ Na **\|** No ☐ |

## 4. Hyrwyddo a Marchnata | *Promoting and Marketing*

Sut ydych chi'n marchnata ac yn hyrwyddo eich sefydliad yn y diwydiant twristiaeth? **|** *How do you market and promote your establishment in the tourism industry?*

| | | |
|---|---|---|
| Taflenni Awdurdod Lleol<br>*Local Authority Leaflets* ☐ | Papurau Lleol<br>*Local Newspapers* ☐ | Papurau Cenedlaethol<br>*National Newspapers* ☐ |
| Cofnodolion Cenedlaethol<br>*National Journals* ☐ | Teledu / Radio Lleol<br>*Local TV / Radio* ☐ | Croeso Cymru<br>*Visit Wales* ☐ |
| Taflen eich hun<br>*Own Leaflet* ☐ | Cyfryngau Digidol<br>*Digital Media* ☐ | Arall<br>*Other* |

A ydych chi'n aelod o gymdeithas dwristiaeth neu unrhyw gorff proffesiynol neu reolaethol? **|** *Are you a member of a tourist association or other professional or regulatory body?*

Ydw | *Yes* ☐ Na | *No* ☐

Os mai "Ydw" oedd eich ateb, manylwch | *If you answered "Yes", please specify:*

## 5. Manylion Arwydd(ion) | *Sign(age) Details*

(Yn ddibynol ar gymeradwyaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) **|** *(Subject to approval by the Highways and Municipal Department)*

Geiriad yr arwydd(ion) **|** *Legend requested on sign(s)*

Symbolau sydd angen **|** *Symbols Reuqested* (hyd at 4 **|** *up to 4*)

1.____________________ 2.____________________

3.____________________ 3.____________________

Nifer yr arwyddion a wnaed cais amdanynt a lleoliad(au) **|** *Number of signs applied for and location(s)*
Amgaewch gynllun lleoliad **|** *Enclose a location plan*

## 6. Cyfleusterau Cyffredinol | *General Facilities*

Os nad yw'n cael ei ddarparu fel rhan annatod o brif swyddogaeth y busnes, nodwch pa rai o'r cyfleusterau canlynol sydd hefyd ar gael **|** *If not provided as an intergral part of the main function of the business, please indicate which of the addition facilities are also available.*

| | Oes **\|** *Yes* | Na **\|** *No* |
|---|---|---|
| Cyfleusterau ar gyfer pobl anabl **\|** *Facilities for disabled people* | ☐ | ☐ |
| Toiledau **\|** *Toilets* | ☐ | ☐ |
| Caffi/Bwyty **\|** *Café/Restaurant* | ☐ | ☐ |
| Llety **\|** *Accommodation* | ☐ | ☐ |
| Canolfan Adwerthu **\|** *Retail Outlet* | ☐ | ☐ |
| Cyfleusterau Chwaraeon **\|** *Sporting Facilities* | ☐ | ☐ |
| Mannau picnic neu fyrddau **\|** *Picnic area or tables* | ☐ | ☐ |
| Arall **\|** *Other* | ☐ | ☐ |

## 7. Llety | *Accommodation*

A yw eich llety wedi ei gymeradwyo gan Croeso Cymru neu'r AA? **|** *Is your accommodation approved by Visit Wales or the AA* Ydi **|** Yes ☐ Na **|** No ☐

Nodwch fanylion gwireddu ac unrhyw wobrau **|** *Please supply details of ratings and any awards:*

## 8. Meysydd Carafanau Teithio a Gwersylla | *Touring Caravan and Camping Parks*

A yw eich safle wedi ei drwyddedu dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960 a/neu Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936? **|** *Is your site licensed under the Caravan Site and Control of Development Act 1960 and/or Public Health Act 1936?* (Amgaewch gopi o'r trwydded safle **|** *Please enclose a copy of site licence*)

Ydi **|** Yes ☐ Na **|** No ☐

A oes gennych o leiaf 20 man ar gael ar gyfer defnydd dros nos achlysruol? **|** *Do you have a minimum of 20 pitches available for casual overnight use?*

Oes **|** Yes ☐ Na **|** No ☐

A oes gennych dystysgrif archwilio gan Croeso Cymru neu'r AA? | Do you have an inspection certificate from Visit Wales or the AA?

☐ ☐

**Eich data**

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei ddefnyddio er dibenion eich cais am arwyddion brown a gwyn yn unig a bydd manylion busnes a phersonol yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol.
Byddwn yn cadw eich gwybodaeth am o leiaf chwe blynedd yn unol â'r canllawiau perthnasol.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Cyngor, ewch i'r wefan:
www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Gwybodaeth/Datganiadau-preifatrwydd-a-chwcis.aspx

**Your data**

All information will be used for the brown and white sign application purposes only. All business and personal details will remain strictly confidential.

The information supplied will be kept for 6 years in accordance with the relevant guidelines.

For further information about your rights and the Data Protection Officers contact details visit:
www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Information/Privacy-notices-and-cookies.aspx

# 9. Datganiad | *Declaration*

- Dymunaf wneud cais i gael ystyriaeth ar gyfer arwyddion twristiaeth gan Cyngor Gwynedd a chadarnhaf fod yr holl wybodaeth a nodwyd yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.
  *I wish to apply for consideration of tourism signposting by Gwynedd Council and confirm that all the information given above is correct to the best of my knowledge.*

- Deallaf, hyd yn oed os yw fy nghais yn cael ei dderbyn i ddechrau, y caiff Cyngor Gwynedd wrthod arwyddion yn y cyfnod cynllunio manwl am resymau diogelwch ffordd, rheoli traffig, amgylcheddol neu chynllunio.
  *I understand the even if my application initially qualifies, Gwynedd Council, may refuse signs at a later stage for road safety, traffic management, environmental or planning reasons.*

- Deallaf, os tynnaf fy nghais yn ôl ar ôl derbyn dyfynbris ysgrifenedig, rwy'n atebol i dalu'r holl gostau unrhyw waith a wnaed.
  *I understand that if I withdraw my application after I have accepted a written quotation, I will become liable for the full costs of any abortive works.*

- Amgaeaf dâl o £75.00 yn daladwy i 'Cyngor Gwynedd' efo'r ffurflen gais wedi ei chwblhau – hwn yw'r ffi gweinyddol ar gyfer ymgynghori, asesu a phrosesu'r cais.
  *Submit with your completed application form the sum of £75.00 payable to 'Gwynedd Council' – wich is the administration fee for consultation, assessment and processing the application.*

- Deallaf a chytunaf i dynnu unrhyw arwydd hysbyseb breifat a fo'n ymwneud â'r atyniad ac a leolir gerllaw neu'n ymyl y ffyrdd sy'n agosau at y safleoedd arfaethedig er mwyn cael arwyddion twristiaeth.
  *I understand and agree to remove any private advertisement signs relating to the attraction located near or on the approach roads to the proposed site for tourism signposting.*

- Hyd eithaf fy ngwybodaeth am cred mae'r manylion a roddir ar y ffurflen hon ac unrhyw atodau amgaeëdig yn gywir a chyflawn ac rwyf yn amgau taliad gweinyddol o £75.00. Rwyf wedi darllen a deall y canllawiau a'r telerau ac yn ymwybodol fod holl gost yr arwyddion yn daladwy gan yr ymgeisydd.
  *To the best of my knowledge and belief, the particulars given on this form and the enclosures are correct and complete and I include the agreed fee of £75.00. I have read the guidelines and conditions and understand that all signage costs are bourne by the applicant.*

Enw | Name:

Swydd | Position:

Llofnod | Signature:

Dyddiad | Date:

Dychwelwch y ffurflen ac unrhyw atodiadau i'r cyfeiriad canlynol:
*Please return this form and any relevant information to the following address:*

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau **|** *Tourism, Marketing and Events Service*
Adran Economi a Chymuned **|** *Economy and Community Department*
Cyngor Gwynedd Council
Stryd y Jêl **|** *Shirehall Street*
CAERNARFON
LL55 1SH

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru